



Gwerthusiad o'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP) – Crynodeb Ymchwil

CCA 05/07 CY

Gwerthusiad o'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP)

Crynodeb Ymchwil

Cefndir

Lansiodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP) yn Nhachwedd 2002. Mae'r rhaglen yn ffurfio rhan o strategaeth y Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol - un o'r dair brif thema yng nghynllun strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cymru: Cymru Well'.

Mae'r CFAP yn rhaglen grantiau sy'n helpu sefydliadau cymunedol a gwirfoddol i ddarparu gwell cyfleusterau neu i gynnal gweithgareddau sy'n hyrwyddo adfywiad cymunedol. Mae'r rhaglen yn mynd ati'n benodol i daclo anfantais gymdeithasol trwy ganolbwyntio ar anfantais ar lefel gymunedol a thrwy gydnabod bod hyd yn oed yr ardaloedd mwyaf cyfoethog yng Nghymru'n debygol o gael rhannau bach difreintiedig.

Ym Mehefin 2006 comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru werthusiad o'r CFAP. Roedd y gwerthusiad yn seiliedig ar yr angen i ateb y cwestiynau canlynol:

- i. Pa mor effeithiol yw'r cynllun o ran gwireddu amcanion ei bolisïau?
- ii. Pa mor effeithlon yw'r dull o ddyrannu adnoddau'r cynllun?
- iii. Pa mor effeithiol yw'r system a sefydlwyd ar gyfer monitro allbwn a chanlyniadau prosiectau unigol?

Cynllun a dulliau ymchwil

Roedd y dulliau a fabwysiadwyd yn cynnwys:

- i. adolygiad o ddogfennau polisi a strategaeth yng Nghymru;
- ii. adolygiad o lenyddiaeth a data rheoli rhaglenni;
- iii. cyfweiliadau gyda budd-ddeiliaid allweddol rhaglenni rheoli;
- iv. adolygiad o raglenni tebyg i'r CFAP ar draws y DU;
- v. ymweliadau â 15 o brosiectau a gefnogwyd gan y rhaglen (gweler atodiad 4 ar gyfer y rhesymeg a'r meini prawf ar gyfer dethol prosiectau); ac
- vi. arolwg cynhwysfawr o fudd-ddeiliaid 250 o geisiadau am brosiectau.

Un agwedd bwysig o gynllun yr ymchwil oedd ymgymryd ag arolwg o brosiectau CFAP ar ôl ymgymryd ag elfennau eraill yr ymchwil. Roedd hynny'n caniatáu cynllunio'r holiadur a'r arolwg i ganolbwyntio ar faterion o ddiddordeb a ddynodwyd yn ystod camau blaenorol yr ymarfer gwerthuso. Roedd cyfradd yr ymateb i'r arolwg yn 21% a ystyrir yn ffafriol iawn.

Amlinellir prif ganfyddiadau'r arolwg isod. Mae dadansoddiad llawn o'r canlyniadau i'w gael yn atodiad tri o'r prif adroddiad.

Prif Ganfyddiadau

Darganfu'r gwerthusiad hwn o'r Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol (CFAP) bod y rhaglen yn cael effaith sylweddol o fewn ardal leol y prosiectau mae'n eu cefnogi. Mae bodolaeth grwpiau cymunedol a strwythurau cymunedol, fodd bynnag, yn amlwg yn elfennau pwysig yn natblygiad y prosiect. Mae angen lefel arbennig o 'allu' ar gymunedau, felly, cyn iddyn nhw fedru derbyn cymorth gan y CFAP. Gall hynny esbonio pam y bu rhai ardaloedd o Gymru'n fwy llwyddiannus nag eraill yn nhermau derbyn arian gan y CFAP.

Ystyrir y rhaglen gyfan, ei deunyddiau a'r gwasanaeth a ddarperir gan staff y Cynulliad, fel un ardderchog gan fwyafrif helaeth yr ymgeiswyr a'r buddiolwyr. Mae hyn yn bennaf oherwydd y ffocws pendant ar 'y cwsmer' o fewn y rhaglen, sy'n golygu, ymhlith pethau eraill, bod y broses o wneud cais mor syml â phosibl a bod yna adborth ardderchog ar gyfer ymgeiswyr.

Mae'r galw am arian gan y rhaglen CFAP yn anhygoel o uchel ac mae'n dal i gynyddu, gan fynd yn fwy o lawer na'r adnoddau sydd ar gael. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid gwrthod tua hanner y ceisiadau a dderbynnir. Mae hefyd yn golygu bod yna bwysau sylweddol ar dîm gweinyddol y rhaglen. Oni bai bod yna adnoddau ychwanegol yn cael eu darparu neu newidiadau'n cael eu cyflwyno i'r system sy'n rheoli'r nifer o geisiadau a gyflwynir, mae'n anochel y bydd system reoli'r CFAP yn mynd yn anghynladwy a dylid, felly, ei hadolygu.

O ganlyniad i nifer uchel y ceisiadau a dderbynnir, mae'r gwaith o'u hasesu a darparu adborth ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus yn dominyddu gweithgareddau tîm gweinyddu'r CFAP, a hynny'n aml ar draul gweithgareddau eraill. Mae hyn yn codi nifer o faterion. Mae darparu adborth ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus yn amlwg yn bwysig a'r amser a dreulir yn gwneud hynny yw un o'r rhesymau pam fod y CFAP mor uchel ei pharch. Fodd bynnag, mae yna linell fain rhwng darparu adborth adeiladol i ymgeiswyr a darparu cyngor ac arweiniad i grwpiau cymunedol ar ddatblygu prosiectau y gellid eu hystyried fel gweithgarwch 'cynyddu gallu' ac sydd felly y tu hwnt i gylch gwaith y CFAP sydd wedi'i chynllunio i ddarparu nawdd ar gyfer gweithredu prosiectau.

Mae'r system asesu prosiectau a ddefnyddir wedi'i hadeiladu o amgylch y math o brosiectau mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i'w denu; prosiectau cymunedol, graddfa fechan. Mae adolygiad critigol o'r system asesu wedi canfod nifer o fylchau posib. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ffaith bod modd ystyried y mwyafrif o'r prosiectau fel rhai 'risg isel', nid yw hyn o anghenraid yn peri pryder. Mae unrhyw fylchau yn y system, fodd bynnag, yn dod yn amlwg pan ystyrir prosiectau mwy neu rai mwy cymhleth.

Mae yna newid cynyddol yn y math o sefydliadau sy'n cyflwyno ceisiadau am arian a allai, o bosib, newid y CFAP o fod yn rhaglen sy'n cefnogi nifer fawr o brosiectau bach, cymunedol, i un sy'n cefnogi prosiectau mwy sy'n debygol o

fod wedi'u cyflwyno gan sefydliadau proffesiynol a chymorth cymunedol yn hytrach na gan y grwpiau cymunedol eu hunain. Gan fod y rhaglen yn cael ei rheoli ar sail gystadleuol, gallai unrhyw gynnydd yn nifer y prosiectau a gyflwynir gan sefydliadau proffesiynol hefyd arwain at leihau'r cymorth sy'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol i grwpiau cymunedol. Mae angen i'r Cynulliad ystyried felly a oes angen unrhyw weithredu pellach er mwyn cynnal ffocws cymunedol y rhaglen.

Argymhellion

1. Dylid cymryd camau i sicrhau bod y rhaglen yn cadw ei ffocws ar gefnogi prosiectau sy'n cael eu harwain gan y gymuned gan gynnwys, o bosib, adolygiad o gymhwysedd sefydliadau 'proffesiynol' i wneud cais am arian gan y CFAP.
2. Dylid adolygu'r adnoddau a ddyrennir i'r CFAP er mwyn sicrhau bod y rhaglen yn parhau i gynorthwyo'r broses o weithredu prosiectau adfywio cymunedau mewn dull effeithiol. Dylid ystyried cynyddu nawdd yn ogystal â lefelau staffio.
3. Os na ellir sicrhau nawdd a/neu staff ychwanegol, dylid ystyried cyflwyno mecanweithiau ar gyfer rheoli nifer y ceisiadau a gyflwynir ar gyfer y rhaglen ac ar gyfer lleihau 'baich gwaith' y tîm gweinyddol.
4. Dylai'r CFAP gadw ei ffocws ar ariannu'r broses o weithredu prosiectau yn hytrach na chynghori cymunedau ar ddatblygu prosiectau a chyflwyno ffurflenni cais.
5. Dylid ystyried trefniadau amgen ar gyfer darparu adborth a chymorth ar gyfer ymgeiswyr aflwyddiannus. Er enghraifft, dylid darparu cyngor ac arweiniad trwy gyfrwng rhaglenni a sefydliadau cynyddu gallu sy'n cael eu hariannu gan y Cynulliad neu trwy gyfrwng cyfres o weithdai.
6. Gall rhai dulliau cynyddu gallu penodol fod yn briodol ar gyfer cynorthwyo cymunedau llai trefnus eu strwythur i gael at adnoddau'r CFAP gan gynnwys sicrhau cymorth 'proffesiynol'. Unwaith eto, gall fod yn briodol i ddarparu'r cymorth hwn trwy gyfrwng rhaglenni a sefydliadau cynyddu gallu sy'n cael eu hariannu gan y Cynulliad.
7. Bu rhai rhannau o Gymru'n fwy llwyddiannus o ran derbyn arian gan y CFAP nag eraill. Dylid ystyried y posibilrwydd o gomisiynu ymchwil pellach i'r rhesymau pam fod rhai ardaloedd o Gymru'n fwy llwyddiannus nag eraill ynghyd â'r posibilrwydd o archwilio p'un y gellir ailadrodd llwyddiant yr ardaloedd hynny mewn mannau eraill.
8. Dylid datblygu cysylltiadau pellach gydag adrannau eraill o fewn y Cynulliad a gyda rhaglenni a sefydliadau adfywiad cymunedol sy'n cael eu hariannu gan y Cynulliad.

9. Dylai tîm gweinyddol y rhaglen gynyddu dwyster y broses o asesu, monitro ac adolygu prosiectau sydd wedi'u dynodi fel rhai 'risg-uchel'.